

ARHOLIADAU - APELIADAU

Ysgol Glan y Môr

APELIADAU YN ERBYN ASESIAD MEWNOL O WAITH AR GYFER CYMWYSTERAU ALLANOL

Mae Ysgol Glan y Môr wedi ymrwymo i sicrhau pan fydd yr athrawon yn asesu gwaith myfyrwyr ar gyfer cymhwyster allanol, fod hyn yn cael ei wneud yn deg, yn gyson ac yn unol â'r fanyleb ar gyfer y cymhwyster dan sylw. Bydd asesiadau yn cael eu gwneud gan athrawon sydd â gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau priodol, ac sydd wedi eu hyfforddi yn y gweithgaredd yma. Bydd gwaith myfyrwyr yn cael ei gyflawni a'i ddilysu yn unol â gofynion y bwrdd arholi. Lle mae pecyn o waith wedi ei rannu rhwng athrawon, sicheir cysondeb trwy safoni mewnl.

Os yw myfyriwr yn teimlo na ddigwyddodd hyn mewn perthynas â'i waith gall y myfyriwr wneud defnydd o'r drefn apelio hon. Noder mai dim ond yn erbyn y broses a arweiniodd at yr asesiad y gellir gwneud apeliodau ac nid yn erbyn y marc neu radd.

Hysbysir myfyrwyr a'u rhieni am y drefn hon yn llawlyfr yr ysgol.

Mae'r drefn hon ar gael gan bob athro, ac fe'i gosodir ar hysbysfyrdau yn yr ysgol.

1. Dylid gwneud apêl cyn gynted â phosib, a rhaid ei gwneud o leiaf bythefnos cyn diwedd y papur diwethaf i'w asesu'n allanol yn y gyfres arholiodau. (Felly rhaid i'r apêl gael ei gwneud cyn dyddiad arbennig ynghanol Mehefin ar gyfer cyfres yr haf fel y mae wedi ei hamserlennu ar hyn o bryd.)

2. Dylid gwneud yr apêl yn ysgrifenedig i'r swyddog arholiodau, a fydd wedyn yn ymchwilio i'r apêl. Os yw'r swyddog arholiodau wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r asesiad dan sylw, bydd y Pennaeth yn penodi aelod arall o'r gweithlu i wneud yr ymchwiliad. Bydd yr un peth yn digwydd os yw'r swyddog arholiodau yn methu gwneud yr ymchwiliad am unrhyw reswm arall.

3. Bydd y swyddog arholiodau neu aelod arall o staff yn penderfynu a oedd y broses a ddefnyddiwyd ar gyfer yr asesiad mewnl yn cydymffurfio â gofynion y corff gwobrwyo a chod ymarfer arholiodau'r JCQ. Gwneir hyn cyn diwedd y gyfres. (Ar hyn o bryd, diwedd Mehefin ar gyfer cyfres yr haf.)

4. Bydd yr athrawon oedd yn gyfrifol am wneud yr asesiad sy'n destun yr apêl yn cael cyfle i weld copi o'r apêl ac i ymateb iddi'n ysgrifenedig, gyda chopi'n cael ei anfon at yr ymgeisydd.

5. Cewch gadarnhad ysgrifenedig o ganlyniad yr apêl, gan gynnwys unrhyw gyfathrebu efo'r bwrdd, unrhyw newidiadau a wnaed i asesiad eich gwaith, ac unrhyw newidiadau a wnaed i wella materion yn y dyfodol.

6. Rhoddir gwybod am ganlyniad yr apêl i'r Pennaeth. Cedwir record ysgrifenedig o'r apêl ac fe fydd ar gael ar gyfer y corff gwobrwyo os bydd gofyn amdano. Petai'r apêl yn dangos unrhyw anghysondeb arwyddocaol, rhoddir gwybod i'r corff gwobrwyo.

Wedi i'r gwaith gael ei asesu'n fewnl caiff ei safoni gan y corff gwobrwyo (bwrdd arholi) i sicrhau cysondeb rhwng canolfannau. Mae safoni o'r fath yn aml yn newid marciau a ddyfernir ar gyfer gwaith a asesir yn fewnl. Mae hyn y tu hwnt i reolaeth Ysgol Glan y Môr ac nid ymdrinnir â hyn o fewn y drefn dan sylw. Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â hyn, gofynnwch i'r swyddog arholiodau am gopi o drefn apelio'r bwrdd arholi perthnasol.

Ar gyfer cyrsiau BTEC

Os bydd myfyriwr yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad asesu, rhaid dilyn y camau sy'n cael eu hamlinellu isod:-

- Cyn pen 5 diwrnod rhaid i'r myfyriwr gysylltu â'r aseswr i drefnu cyfarfod anffurfiol i drafod y penderfyniad asesu.
- Os yw'r myfyriwr yn dal yn anfodlon, yna rhaid cyflwyno apêl i'r Enwebai Ansawdd.
- Bydd hyn yn caniatáu i'r myfyriwr gyflwyno rhesymau pam y dylai ei aseiniad gael ei ailasesu. Dylid gwneud hyn cyn pen 5 diwrnod ar ôl cyfarfod yr aseswr.
- Bydd yr aseiniad yn cael ei ailasesu gan Wiriwr Mewnol a fydd yn rhoi adborth i'r myfyriwr cyn pen un wythnos waith.
- Os yw'r myfyriwr yn dal yn anfodlon, yna gall ef / hi apelio i'r Gwiriwr Allanol drwy'r Enwebai Ansawdd.

Sail dros Apelio

Gellir cyflwyno apêl dan yr amgylchiadau a ganlyn:

- Os yw'r myfyriwr yn anfodlon â chanlyniadau asesiad unigol ar gyfer elfen o uned neu feini prawf perfformiad unigol.
- Os yw'r myfyriwr yn anfodlon â chanlyniad ei asesiad ar ddiwedd y cwrs.
- Os oes gan y myfyriwr unrhyw amgylchiadau personol a allai fod wedi effeithio ar ei allu ef neu hi i gwblhau'r aseiniadau a chadw at y dyddiadau cwblhau.

Adolygwyd : Mawrth 2016

Mabwysiadwyd : Mawrth 2016

Arwyddwyd: _____ *W. Bryn Williams* _____